



# **Rhwydwaith Cymunedau Mwy**

## **Diogel Cymru:**

## **Asesiad Anghenion Hyfforddi**

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Tachwedd 2022**

**Awduron:**

**Ella Rabaiotti,**

**Mike Harrison,**

**Deborah Jones,**

**Prifysgol Abertawe**



Rhwydwaith  
**CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU**  
WALES SAFER COMMUNITIES  
Network



**Prifysgol  
Abertawe**  
**Swansea  
University**



## CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd Asesiad Anghenion Hyfforddi (TNA) ar gyfer gweithwyr proffesiynol diogelwch cymunedol ar draws Cymru gan Brifysgol Abertawe ar ran Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ('y Rhwydwaith'). Seiliwyd y TNA ar ymchwil dulliau cymysg gan gynnwys arolwg a grŵp ffocws. Er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cael ei ddsbarthu'n eang, roedd 93% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn gweithio mewn awdurdod lleol, heddlu neu swyddfa comisiynydd yr heddlu a throsedd. Roedd y grŵp ffocws yn un cynrychioladol o bartneriaid diogelwch cymunedol ar draws Cymru. Mae'r prif ganfyddiadau yn cynnwys:

### Croesawyd hyfforddiant sgiliau er gwaethaf lefel uchel yr hyder mewn sgiliau priodol

- Roedd 74.3% o'r cyfranogwyr yn teimlo'n hyderus i hyderus iawn ynghylch sgiliau priodol
- Byddai 65.1% o'r cyfranogwyr yn dymuno cael mwy o hyfforddiant yn yr holl sgiliau priodol
- Byddai 72.5% o'r cyfranogwyr yn dymuno cael hyfforddiant mewn asesu strategol a byddai 71.8% yn dymuno cael mwy o hyfforddiant mewn sgiliau ymchwil (gan gynnwys coladu, rhannu a dadansoddi data), datrys problemau; ac asesu risg.

### Roedd lefel dda o wybodaeth gyffredinol am ddiogelwch cymunedol yn amlwg – ar ei gryfaf mewn YG

- Roedd 59.5% o'r cyfranogwyr yn wybodus am yr holl feysydd pwnc perthnasol
- Roedd 58% yn gwybod ble i gael hyfforddiant am feysydd pwnc diogelwch cymunedol
- Roedd 49.2% o'r cyfranogwyr o'r farn y byddai modd gwella'r ddarpariaeth hyfforddiant gyffredol
- Roedd 70% o'r cyfranogwyr o'r farn y byddai modd gwella hyfforddiant ynghylch rhannu wybodaeth

### Dylai hyfforddiant diogelwch cymunedol gynnwys pum maes thematig allweddol

- Nodir pum maes hyfforddiant dilyniannol (gweler ffigur 1 drosodd), gan gychwyn gyda **diogelwch cymunedol craidd** – hyfforddiant sgiliau (asesu strategol, sgiliau ymchwil, datrys problemau ac asesu risg) sy'n cynnwys deddfwriaeth berthnasol, dyletswyddau a phwerau, atal trosedd a diogelu (gan gynnwys diogelu cyd-destunol), yn ogystal â gwybodaeth sylfaenol am faterion perthnasol a materion sy'n dod i'r amlwg
- **Dulliau gweithredu integredig** – dau faes hyfforddiant ar wahân ond cysylltiedig, gan gynnwys hyfforddiant **datrys problemau aml-asiantaeth a gweithio mewn partneriaeth** gan gynnwys dealltwriaeth ymarferol o rolau a chyfrifoldebau partneriaeth diogelwch cymunedol, cyfraniadau unigol a grŵp


partneriaid i gynorthwyo gweithrediad gweithgarwch partneriaeth a dulliau datrys problemau

- **Rheoli prosiectau a rhaglenni** – Hyfforddiant rheoli prosiectau sylfaenol i gynorthwyo gweithrediad cynlluniau partneriaeth gyda ffocws ar sgiliau gwerthuso prosiectau a mesur yr effaith. Cynnwys gweithgarwch rheoli rhaglenni er mwyn cynorthwyo rheolaeth strategol a gweithredol prosiectau lluosog.
- **Llywodraethu ac arweinyddiaeth** i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau a helpu i reoli risg. Cynnwys rhannu gwybodaeth ar lefel arweinyddiaeth i gryfhau ymateb diogelwch cymunedol ac eglurder llwybrau llywodraethu ac uwchgyfeirio.

### Mae'n well gan weithwyr proffesiynol ddarpariaeth hyfforddiant hyblyg sy'n seiliedig ar arfer a chydabyddiaeth ar gyfer DPP

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn manteisio ar hyfforddiant sy'n ymwneud â'r bartneriaeth diogelwch cymunedol trwy eu sefydliad eu hunain yn bennaf (56.8%)
- Ceir cyfle i gryfhau cyfleoedd hyfforddi anffurfiol a ffurfiol yn y Rhwydwaith a'r Rhwydweithiau Cysylltiedig
- Byddai'n well gan gyfranogwyr gael hyfforddiant 'wyneb yn wyneb' hyblyg ac sy'n seiliedig ar arfer
- Mae hyfforddi'r hyfforddwr yn ddull cyflawni aml-asiantaeth cyffredin, ond mae'n dibynnu ar adnoddau a rennir, staff a nodwyd mewn ffordd briodol, a mecanwaith rheoli ansawdd ac adborth datblygedig.
- Byddai 92.8% o gyfranogwyr yn dymuno cael cydnabyddiaeth trwy gyfrwng datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Ceir cyfle i broffesiynoli'r sector ymhellach (yn enwedig mewn llywodraeth leol) trwy gyfrwng fframwaith cymwysterau

Ffigur 1: Fframwaith Anghenion Hyfforddi Awgrymedig



## Argymhellion

- Mabwysiadu'r pum bloc adeiladu allweddol o ran hyfforddiant ar gyfer diogelwch cymunedol (diogelwch cymunedol craidd, datrys problemau, gweithio mewn partneriaeth, rheoli prosiectau a llywodraethu ac arweinyddiaeth) (gweler ffigur 1)
- Cydgynhyrchu cynnwys manwl y pum bloc adeiladu o ran hyfforddiant gydag ystod o ymarferwyr ac arweinwyr diogelwch cymunedol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn bodloni anghenion sy'n seiliedig ar arfer
- Gweithio gyda darparwr priodol i adolygu a gwerthuso'r deunyddiau hyfforddi mewn ffordd ansoddol, gyda'r nod o ddarparu fframwaith achredu a chymwysterau i gynorthwyo proffesiynoldeb gweithwyr diogelwch cymunedol proffesiynol
- Ystyried y dewisiadau darparu ac o ran adnoddau sy'n ofynnol er mwyn symud canfyddiadau ac argymhellion yr Asesiad Anghenion Hyfforddi yn eu blaen